



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board



Awyr Las
Blue Sky

Elusen GIG Gogledd Cymru
The North Wales NHS Charity

DIOLCH YN FAWR A GWYBODAETH BWYSIG AR GYFER CYMUNED WNÏO GOGLEDD CYMRU GAN FWRDD IECHYD BETSI CADWALADR (BCUHB)

Diolch i'r holl grefftwyr sy'n cynhyrchu eitemau o'u gwirfodd ar gyfer staff Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr! Rydych chi'n anhygoel!

Erbyn hyn mae llawer o gymunedau gwnïo a pheirianwyr gwnïo brwdfrydig ledled Gogledd Cymru yn cynnig eu harbenigedd a'u sgiliau i ddarparu hetiau a gwisgoedd ychwanegol a all fod eu hangen ar gyfer staff y Bwrdd Iechyd, a hefyd bagiau golchi dillad. Diolch i bawb yn y gymuned wnïo am ymroi mor angerddol i wneud dillad a bagiau golchi dillad y mae mawr angen amdanynt yn y cyfnod heriol hwn. Bwriad BCUHB yw gweithio gyda'r gymuned wnïo wirfoddol i sicrhau fod staff yn cael mynediad at yr eitemau ychwanegol angenrheidiol wrth i bawb reoli'r pandemig Covid-19. Mae angen i BCUHB fod â hyder yn nyluniad, deunyddiau, dull cynhyrchu a gallu gwrth-heintio unrhyw gynnyrch y mae staff BCUHB yn eu defnyddio cyn eu dosbarthu i'w defnyddio gan staff.

Gwybodaeth Bwysig:

Mae BCUHB yn gweithio gyda'r gymuned wnïo wirfoddol yng Ngogledd Cymru i sicrhau y gellir cynhyrchu PPE o'r ansawdd gorau ar gyfer gweithwyr allweddol. Nid yw BCUHB yn gweithredu fel cyflenwr PPE i asiantaethau eraill. Os oes cynrychiolwyr o asiantaethau eraill yn dymuno cysylltu â Chydlynwyr PPE Gwirfoddol BCUHB i gael cyngor neu arweiniad, gallant wneud hynny yn y cyfeiriad hwn:

<https://awyrilas.org.uk/ppe-enquiries-north-wales>

Rhestr o Ddillad y mae BCUHB eu hangen:

Gellir cael cefnogaeth dechnegol a phatrymau ar gyfer yr eitemau a restrir isod ar y naill neu'r llall o'r tudalennau Facebook canlynol [the North Wales for the love of scrubs-Our NHS needs you](#) neu [Sewing for the NHS-Wrexham North Wales](#)

Dillad 'Scrubs':

Nodwch, os gwelwch yn dda, nad oes angen i holl staff BCUHB wisgo dillad *scrubs*, a bod yr iwniform a dillad gwaith arferol hefyd yn dderbyniol. Efallai y bydd angen dillad *scrubs* ychwanegol pwysau ysgafn, y gellir eu gwisgo o dan PPE. Mae angen i'r dillad yma gael eu gwneud o polycotton, cotwm, neu gymysgedd cotwm y gellir ei olchi ar dymheredd o 60C o leiaf, ac y gellir ei smwddio gyda haearn poeth a / neu ei sychu mewn sychwr dillad. Gofynnwn i chi beidio â defnyddio deunydd Glas, Gwyrdd neu Las Tywyll (Navy) ond gellir defnyddio unrhyw amrywiaeth arall o liw neu batrwm. Mae angen pob maint.

Gorchuddion gwallt / hetiau 'scrub':

Nodwch, os gwelwch yn dda, nad oes angen i holl staff BCUHB wisgo'r rhain ac nid ydynt yn cael eu hystyried yn PPE. Fe'u defnyddir i gadw gwallt yn daclus ac oddi ar yr wyneb. Gellir gwneud y rhain o unrhyw ddeunydd polycotton, cotwm neu gymysgedd cotwm lliw neu batrwm y gellir ei olchi ar 60C ac y gellir ei smwddio gyda haearn poeth a / neu ei sychu mewn sychwr dillad.

Bandiau Gwallt:

Defnyddir y rhain i gadw gwallt oddi ar yr wyneb ac atal clustiau rhag mynd yn ddolurus oherwydd yr elastig ar y masgiau llawfeddygol. Gellir gwneud y rhain o unrhyw ddeunydd polycotton, cotwm neu gymysgedd cotwm lliw neu batrwm y gellir ei olchi ar 60C ac y gellir ei smwddio gyda haearn poeth a / neu ei sychu mewn sychwr dillad.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board



Awyr Las
Blue Sky

Elusen GIG Gogledd Cymru
The North Wales NHS Charity

Ymestynwyr masgiau:

Defnyddir y rhain i leihau pwysau ar glustiau staff wrth wisgo masgiau wyneb llawfeddygol elastig. Gellir gwneud y rhain o unrhyw ddeunydd polycotton, cotwm neu gymysgedd cotwm lliw neu batrwm y gellir ei olchi ar 60C ac y gellir ei smwddio gyda haearn poeth a / neu ei sychu mewn sychwr dillad. Nid oes cyfyngiad ar y dyluniad na'r deunyddiau y gellir eu defnyddio.

Baqiau Golchi:

Mae angen bagiau golchi dillad ar frys. Eu diben yw i staff BCUHB allu mynd a gwisgoedd budr / dillad gwaith adref i'w golchi. Mae'r wisg yn aros yn y bag golchi dillad yn ystod y broses olchi. Gellir gwneud y rhain o unrhyw ddeunydd polycotton, cotwm neu gymysgedd cotwm lliw neu batrwm y gellir ei olchi ar 60C ac y gellir ei smwddio gyda haearn poeth a / neu ei sychu mewn sychwr dillad.

Baqiau Cleifion:

Mae'r rhain i'w defnyddio ar gyfer golchi dillad ac eiddo cleifion ac mae angen iddynt fod yr un maint a chas gobennydd a gellir gwneud y rhain o unrhyw ddeunydd polycotton, cotwm neu gymysgedd cotwm lliw neu batrwm y gellir ei olchi ar 60C ac yn gallu cael eu smwddio gyda haearn poeth a / neu gael eu sychu mewn sychwr dillad.

Sut y gall Gwneuthurwyr helpu gyda dosbarthu eitemau i Weithwyr Allweddol

Gofynnir yn garedig i bob gwneuthurwr yng Ngogledd Cymru BEIDIO â danfon eitemau a gynhyrchwyd i unrhyw safle ysbyty BCUHB. Cofrestrwch fel aelod o'r gymuned wnïo, fel y gallwch gael gwybod am y manau gollwng swyddogol ar gyfer yr eitemau rydych chi'n eu gwneud. Cofrestrwch yma, os gwelwch yn dda: <https://awyrilas.org.uk/covid19offersofsupport>. Os ydych chi'n cofrestru yma, yn ogystal â thrafod y manau gollwng, gall Cydlynwyr PPE Gwirfoddol BCUHB gysylltu â chi i drafod ein dyluniadau dillad, y deunyddiau rydych chi'n eu defnyddio a chyflenwi deunyddiau crai os oes angen. Gallant eich helpu i sicrhau fod eich dillad o'r ansawdd gorau un, a'ch bod yn gwneud yr eitemau y mae'r galw mwyaf amdanynt. Byddant hefyd wrth gwrs yn awyddus i **Ddiolch** ichi a rhoi'r gydnabyddiaeth yr ydych yn ei haeddu!

**Diolch eto am eich help! Diolch i chi am feddwl am eich cymuned.
Diolch i chi am amddiffyn eich Gwasanaeth Iechyd Gwladol a'n staff.**